


Mae Covid-19 yn argyfwng iechyd rhyngwladol sydd wedi newid bywydau pawb yng Nghaerdydd. Yn ogystal â chael effaith ar iechyd a llesiant pobl, mae'r feirws wedi achosi problemau eraill. Gorfodwyd llawer o fusnesau ar draws y ddinas i gau dros dro ac mae llawer o bobl yn methu mynd i'r gwaith.

Unwaith y caiff y cyfyngiadau cloi eu llacio, mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu ailagor y ddinas yn raddol mewn ffordd ofalus a diogel er mwyn i fusnesau allu agor eto a bod pobl yn gallu dychwelyd i'r gwaith.

Er bod cyfnod y cloi wedi bod yn frawychus ac yn heriol, rydyn ni i gyd wedi dysgu pethau newydd ac rydyn ni wedi tyfu o'i herwydd. Bydd dechrau o'r newydd yn ein helpu i lunio ein dyfodol. Bydd llawer o'r newidiadau newydd nid yn unig yn gwneud pethau'n fwy diogel, ond yn helpu i wneud Caerdydd yn lle gwell i fyw, gweithio a chwarae ynddo.

Rhai o'r newidiadau posib y gallech eu gweld



Cyfyngiadau cyflymder
(mwy o barthau 20mya)
gwneud y ffyrdd yn lle mwy
diogel i gerddwyr a beicwyr



**Mwy o lwybrau beicio a
pharcio ar gyfer beics**
annog pobl i ddefnyddio teithio
llesol i symud ar draws ac i'r
ddinas



Palmentydd lletach
gwneud cadw pellter cymdeithasol yn haws

Bydd y newidiadau
hyn yn digwdd yng
nghanol y ddinas yn
gyntaf...



...yna byddant yn
digwydd yn raddol
ar draws y ddinas
ehangach



Llwybrau cerdded unffordd
ffordd ddiogel a threfnus o
sicrhau pellter cymdeithasol pan
fo llawer o bobl hyd y lle



Pwyntiau Croesawu gyda
Llysgenhadon Stryd
helpu pobl i ddeall y newidiadau
a gwneud yn siwr eu bod yn cael
ymweliad diogel.



Gofod ciwio
lle diogel i bobl giwio ar gyfer
siopa.



Newidiadau i barcio ceir; a
symudiad traffig o amgylch
canol y ddinas
lleihau llygredd, annog pob
math o deithio llesol



Ardaloedd gorlif
ardaloedd eistedd yn yr awyr
agored i helpu bwyta, caffis a
bariau



Blychau plannu a mân barciau
gwneud y ddinas yn lle
gwyrdach

Mynediad diogel i ysgolion
cau ffyrdd, palmentydd lletach a therfynau
cyflymder i wneud eich siwrneiau'n fwy diogel